**Mumbles** Community Council

# Minutes of Meeting of the Finance and Compliance Committee held on 20 November 2023 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present:** Ian Scott (Chair), Phil Keeton, Will Thomas, Francesca O'Brien, Rebecca Fogarty and Carrie Townsend Jones

**Officers Present**: Paul Beynon – RFO and Ian Hughes - Committee Support Officer (CSO)

**FI2311-01** **Apologies:** Angela O'Connor

**FI2311-02** **Declarations of Interest**

None

**FI2311-03** **Minutes of the Previous Meetings of the Committee**

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 16 October 2023 as a true record.

**FI2311-04** **Outstanding Actions from Previous Meeting**

**RESOLVED** outstanding actions updated, details recorded in 'outstanding action' report.

**RECOMMENDED** that the revised quote received from Alain Thomas of £2,117.51 to undertake an evaluation of the outcomes arising from the recommendations made in his 2020 report to be funded from the Evaluation (FC6) budget be accepted.

**FI2311-05** **Budget Monitoring Report to 30/09/2023**

Paul Beynon, The RFO, outlined the Budget Monitoring Report.

**RESOLVED** to note Budget Monitoring Report to 30/09/2023.

**FI2311-06** **Budget 2024/25 including presentation by Paul Beynon, RFO**

Mumbles Community Council

Paul Beynon, The RFO, outlined current and future budgeting considerations including the need for budget proposal forms to be submitted in a timely manner. In answer to questions from Councillors The RFO confirmed that the training budget had been increased to £9,000 in 2023/24. In addition, the cost of preliminary work on The Ostreme Development was discussed and whether such work including surveys would be covered in the £250,000 proposed for the development from MCC's budget.

**AGREED** that all Budget Proposal Forms be provided to RFO before 1.12.23 in order that any proposal be agreed at December's Committee and discussed at the Budget Scrutiny meeting on 14.12.23.

**AGREED** that ongoing design team costs prior to development construction be discussed at Ostreme's Development Working Group.

**AGREED** that the attached budget for 2024/25 be recommended to Council at the Budget meeting to be held in January 2023

**FI2311-07** **Councillor Review of Bank Reconciliations and Employee Data Update**

**AGREED** that to defer this agenda item to December Meeting.

**FI2311-08** **Whitestone Primary School Grant Application**

Grant application for £4,000 to improve play yard areas.

The CSO, Ian Hughes outlined that he had e-mailed the applicant seeking clarification on the points raised at October's Meeting by Councillors but had not received a response.

**ACTION**: Cllr Erasmus be requested to contact the applicant for an update.

**FI2311-09** **Heartbeat Trust UK Grant Application**

Grant Application for £9,900 towards providing defibrillators in Mumbles 'Hotspots'.

The Chair, Cllr Scott outlined how he had met with applicant together with CSO following a request for additional information. The applicant had provided detailed information (previously provided to committee members) outlining current and proposed locations for defibrillators. The applicant stated that since the original application one of the proposed locations (promenade) had already been provided with a defibrillator by Swansea Council. In answer to questions both The Chair and CSO outlined how a number of organisations were contributing to the positioning of defibrillators. It was also confirmed that no other grant related to the current grant application in question. During the discussion it was also proposed removing the defibrillator from outside Ostreme to the Skatepark due to one already existing outside Mumbles Police Station thereby reducing the grant application to £8.250. Discussion also centred on MCC providing 100% of the cost in question but in the opinion of Councillors this was balanced against the overall expenditure of providing defibrillators together with free training also being provided,

**RECOMMENDED:** that a grant of £8,250 be provided for the installation of defibrillators within MCC Area from the Small and Medium Grants budget (FC1).

**RECOMMENDED:** that the defibrillator situated outside Ostreme Centre be re-located to the Skatepark as suggested by the applicant.

**Mumbles Bowls Club Grant Application**

**FI2311-10** Grant Application for £2,149.46 to assist in the payment of green maintenance charges.

The CSO outlined that in consultion with The Clerk and RFO he had not sought clarification from the applicant as requested by Councillors at October's Meeting believing that the points of contention had already been addressed in the original application. In answer to Councillors questions The CSO confirmed that the grant if approved would be distributed amongst the three groups using Mumbles Bowling Club facilities.

**RECOMMENDED:** that the grant of £2,149.46 for the maintenance of the Mumbles Bowls Green be provided from the Small and Medium Grants budget (FC1) .

Mumbles Community Council

**FI2311-11** **Sunshine Lotus Yoga Grant Application**

Grant Application for £2,400 to support yoga within the community through Yoga 4 Health

The CSO outlined how he had written to the applicant who had responded but that a further request for additional information had not been answered.

**AGREED** that the CSO will make further efforts to contact applicant and update the Committee at the December Meeting.

**FI2311-12** **Oystermouth Panto Grant Application**

Grant Application for an amount up to £2,000 to assist in relation to a Christmas Panto.

The Chair, Cllr Scott and CSO outlined that the applicant had not responded to the CSO's request for additional information. In addition the Ostreme's Centre Manager had been consulted and a booking would not now be possible in any event at such short notice before Christmas.

**RESOLVED** that the application should be rejected.

**FI2311-13** **Mumbles Rugby Club Grant Application**

Grant Application for £2,000 to contribute towards the community-based annual festival.

The CSO updated the committee on his contact with applicant. Following his initial request for information the applicant e-mailed some details but was unable to provide a further update due to being on holiday in Mexico. The applicant will be contacting CSO upon his return from holiday.

**AGREED** that the CSO will provide a further update at the December Meeting.

Meeting ended 7.33pm

Mumbles Community Council

**Finance and Compliance Committee – Draft Budget 2024/25**

| Item | Amount £ | RFO Auth |
|---|---|---|
| Small and Medium Grants | 45,000 | |
| Mumbles Traders Annual Grant | 8,500 | |
| West Cross Youth Club Annual Grant | 5,000 | |
| Training and Associated Costs | 4,200 | |
| Evaluation Services | 3,000 | |
| Hybrid Meeting Equipment | 1,400 | |
| Ostreme Centre – Development Costs | 250.000 | |
| | | |
| Finance and Compliance – Total | 317,100 | |

Mumbles Community Council

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023 am 6.30pm
# Cyfarfod Hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Ian Scott (Cadeirydd), Phil Keeton, Will Thomas, Francesca O'Brien, Rebecca Fogarty a Carrie Townsend Jones

**Swyddogion yn bresennol**: Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**FI2311-01** **Ymddiheuriadau:** Angela O'Connor

**FI2311-02** **Datganiadau o fuddiant**

Dim

**FI2311-03** **Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Pwyllgor**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2023 fel cofnod cywir.

**FI2311-04** **Camau gweithredu heb eu cwblhau o'r cyfarfod blaenorol**

**PENDERFYNWYD** bod y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau bellach wedi'u diweddaru, a bod y manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu heb eu cwblhau'.

**FI2311-05** **Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 30/09/2023**

Amlinellodd Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

**PENDERFYNWYD** cytuno ar Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 30/09/2023.

FI2311-06

**Cyllideb 2024/25, gan gynnwys cyflwyniad gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol**

Amlinellodd Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, ystyriaethau cyllidebu presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys yr angen i ffurflenni cynnig cyllideb gael eu cyflwyno mewn modd amserol. Mewn ymateb i gwestiynau gan gynghorwyr, cadarnhaodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol fod y gyllideb hyfforddi wedi ei chynyddu i £8,000. Yn ogystal, trafodwyd cost gwaith rhagarweiniol ar ddatblygiad Canolfan Ostreme ac a fyddai gwaith o'r fath, gan gynnwys arolygon, yn cael ei gwmpasu gan arian cyfatebol ar gyfer y £250,000 a gynigiwyd ar gyfer y datblygiad o gyllideb Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**CYTUNWYD** bod yr holl ffurflenni cynnig cyllideb yn cael eu darparu i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn 1.12.23 er mwyn cytuno ar unrhyw gynnig yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr.

FI2311-07

**CYTUNWYD** bod y costau ariannu cychwynnol cyn adeiladu'r datblygiad yn cael eu trafod yng Ngweithgor Datblygu Canolfan Ostreme.

**ARGYMHELLWYD:** cymeradwyo'r swm o £250,000 a awgrymwyd ar gyfer datblygu Canolfan Ostreme yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

**Diweddariad ar Adolygiad Cynghorwyr o Gysoniadau Banc a Data Gweithwyr**

FI2311-08

**CYTUNWYD** i ohirio'r eitem hon ar yr agenda tan gyfarfod mis Rhagfyr.

**Cais Grant Ysgol Gynradd Whitestone**

Cais am grant o £4,000 i wella'r ardal chwarae.

Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau, Ian Hughes, ei fod wedi anfon e-bost at yr ymgeisydd yn gofyn am eglurhad ar y pwyntiau a godwyd yng nghyfarfod mis Hydref gan gynghorwyr ond nad oedd wedi derbyn ymateb.

FI2311-09

**CAM GWEITHREDU**: Gofyn i'r Cynghorydd Erasmus gysylltu â'r ymgeisydd am ddiweddariad.

**Cais Grant Heartbeat Trust UK**
Cais am grant o £9,900 tuag at ddarparu diffibrilwyr ym 'mannau poblogaidd' y Mwmbwls.

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, sut yr oedd wedi cyfarfod â'r ymgeisydd ynghyd â'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn dilyn cais am wybodaeth ychwanegol. Roedd yr ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth fanwl (a ddarparwyd yn flaenorol i aelodau'r pwyllgor) yn amlinellu lleoliadau presennol ac arfaethedig ar gyfer diffibrilwyr. Dywedodd yr ymgeisydd ers y cais gwreiddiol fod un o'r lleoliadau arfaethedig (y promenâd) eisoes wedi cael diffibriliwr gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Mewn ymateb i gwestiynau, amlinellodd y Cadeirydd a'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau sut yr oedd nifer o sefydliadau yn cyfrannu at leoli diffibrilwyr. Cadarnhawyd hefyd nad oedd unrhyw grant arall yn ymwneud â'r cais grant presennol dan sylw. Yn ystod y drafodaeth, cynigiwyd hefyd symud y diffibriliwr o'r tu allan i Ganolfan Ostreme i un o'r safleoedd arfaethedig oherwydd bod un eisoes yn bodoli gerllaw, y tu allan i Orsaf Heddlu'r Mwmbwls, a thrwy hynny leihau'r cais am grant i £8,250. Roedd y drafodaeth hefyd yn canolbwyntio ar Gyngor Cymuned y Mwmbwls yn darparu 100% o'r gost dan sylw ond, ym marn y cynghorwyr, roedd hyn yn cael ei gydbwyso yn erbyn gwariant cyffredinol darparu diffibrilwyr, ynghyd â hyfforddiant am ddim hefyd yn cael ei ddarparu.

**ARGYMHELLWYD:** Darparu'r swm o £8,250 ar gyfer gosod diffibrilwyr yn ardal
**FI2311-10** Canolfan Ostreme Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**ARGYMHELLWYD:** Bod y diffibriliwr y tu allan i Ganolfan Ostreme yn cael ei adleoli i leoliad arall fel yr awgrymwyd gan yr ymgeisydd.

**Cais Grant Clwb Bowlio y Mwmbwls**
Cais am grant o £2,149.46 i gynorthwyo gyda thalu costau cynnal a chadw'r lawnt.

Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, nad oedd wedi gofyn am eglurhad gan yr ymgeisydd yn unol â chais y cynghorwyr yng nghyfarfod mis Hydref, gan gredu bod y pwyntiau dadlau eisoes wedi cael sylw yn y cais gwreiddiol. Mewn ymateb i gwestiynau'r cynghorwyr, cadarnhaodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y byddai'r grant o'i

gymeradwyo yn cael ei ddosbarthu ymhlith y tri grŵp sy'n defnyddio cyfleusterau Clwb Bowlio'r Mwmbwls.

FI2311-11 **ARGYMHELLWYD:** Cymeradwyo'r cais am grant gan y Cyngor Llawn yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

**Cais Grant Sunshine Lotus Yoga**
Cais am grant o £2,400 i gynnal ioga yn y gymuned trwy Yoga 4 Health.

Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau sut yr oedd wedi ysgrifennu at yr ymgeisydd, a oedd wedi ymateb, ond nad oedd cais pellach am wybodaeth ychwanegol wedi'i ateb.

FI2311-12 **CYTUNWYD** y bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn gwneud ymdrechion pellach i gysylltu â'r ymgeisydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

**Cais Grant Pantomeim Ystumllwynarth**
Cais am grant o swm hyd at £2,000 o gymorth ar gyfer cynnal pantomeim Nadolig.

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott a'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau nad oedd yr ymgeisydd wedi ymateb i gais y Swyddog Cymorth Pwyllgorau am wybodaeth ychwanegol. Ymgynghorwyd hefyd â Swyddog Archebu Canolfan Osteme ac ni fyddai modd archebu lle ar fyr rybudd cyn y Nadolig beth bynnag.

FI2311-13 **PENDERFYNWYD** y dylid gwrthod y cais.

**Cais Grant Clwb Rygbi y Mwmbwls**
Cais am grant o £2,000 i gyfrannu at yr ŵyl flynyddol gymunedol.

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar ei gysylltiad â'r ymgeisydd. Yn dilyn ei gais cychwynnol am wybodaeth, anfonodd yr ymgeisydd rai manylion e-bost ond nid oedd yn gallu rhoi diweddariad pellach

oherwydd ei fod ar wyliau ym Mecsico. Bydd yr ymgeisydd yn cysylltu â'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau pan fydd yn dychwelyd o'i wyliau.

**CYTUNWYD** y bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn rhoi diweddariad pellach yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.33pm.

Mumbles
Community Council